

Blwyddyn Newydd Dda

'Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd...'

Mae Duw am ein defnyddio ni yn 2018 i gyhoeddi ei deyrnas ac i ddod â goleuni a gobaith a llawenydd i'n byd.

Mae'r her yn fawr, mae'r rhwystrau ym mhobman yn y byd seciwlar hwn ond eto mae'r alwad yr un mor gref:

'Ewch, gan hynny, a gwnewch ddisgyblion o'r holl genhedloedd, gan eu bedyddio hwy yn enw'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân, a dysgu iddynt gadw'r holl orchmynion a lygaid tosturi.' Byddai Crist bob amser yn annog ei ddisgyblion i fod yn dosturiol: 'A phan welodd ef y tyrfaoedd tosturiodd wrthynt am eu bod yn flinderus a diymadferth fel defaid heb fugail.' (Mathew 9:36 BCN).

Mae cariad a thosturi yn mynd law yn llaw yn naturiol. Fel yr ydym yn cael ein hatgoffa gan Paul: 'Y mae'n goddef i'r eithaf, yn credu i'r eithaf, yn gobeithio i'r eithaf, yn dal ati i'r eithaf.' (1 Corinthiaid 13:7 BCN). Drwy lygaid tosturi a chariad Cristnogol gallwn dderbyn a charu pobl sydd yn wahanol. Gallwn ymestyn allan i'r byd lle mae yna gymaint o ddiodeffaint a chreulondeb a dangos ffordd ragorach fyth.

Mae Duw yn ein defnyddio ni yn 2018 a gallwn ymateb i her a sialensiau'r oes gyda brwdfrydedd. Fel y cawn ein hatgoffa gan Mathew: 'Yna meddai wrth ei ddisgyblion, "Y mae'r cynhaeaf yn fawr ond y gweithwyr yn brin;"' (Mathew 9:37 BCN).

Mor hawdd yw digalonni wrth edrych ar yr ystadegau a gweld cyflwr ein byd. Fel y dywedodd Syr John Reith: 'nid wyf yn hoff o greisis, ond dwi'n hoffi'r cyfleoedd ddaw yn ei sgil.' Oes mae yna sialensiau mawr yn wynebu Eglwys Iesu Grist, ond rhaid i ni fod yn bobl ufudd, gwasanaethgar a brwdfrydig a pheidio â cholli ein golwg ar awdur a pherffeithydd ein ffydd. Mae yna elfen o frys. Rhaid i ni ymateb i'r her heddiw.

Gwnawn 2018 yn flwyddyn y byddwn yn ymateb yn frwdfrydig i alwad Crist. Rhaid i ni fynd ar ein gliniau:

'deisyfwich felly ar Arglwydd y cynhaeaf anfon gweithwyr i'w gynhaeaf.' (Mathew 9:38 BCN).



Gwaith Crist yr ydym yn ymwneud ag o, ei genhadaeth ef, ei efengyl ef. Rhaid i ni weddio, rhaid i ni ymddiried ynddo ac yn ei rym anorchfygol. Bu i'r deuddeg disgybl ymateb i alwad Crist a gydag ymddiriedaeth syml bu iddynt dderbyn y grym angenrheidiol ar gyfer y dasg. Mae Duw yng Nghrist yn ein galw heddiw yn 2018 ac yn rhoi grym ac awdurdod a'r gallu i ni gyflawni'r gwaith. Rhaid felly wrth weddi, ffydd a hefyd llawenydd

gobeithiol: 'Ac wrth fynd cyhoeddwich y genadwri: 'Y mae teyrnas nefoedd wedi dod yn agos.' (Mathew 10:7 BCN).

Gadawn i eiriau Paul fod yn wir yn ein hanes ninnau yn 2018: 'Nid oes arnaf gywilydd o'r Efengyl, oherwydd gallu Duw yw hi ar waith er iachawdwriaeth i bob yn sy'n credu, yr lldewon yn gyntaf a hefyd y Groegiaid.' (Rhufeiniaid 1:16 BCN).

Codwn ein calon, peidiwn â digalonni, peidiwn â llaesu dwylo yn 2018. Ymrow'n weddi, dyfnhawn ein ffydd, rhannwn gariad a thosturi Crist, gweddiwn yn ddi-baid a chyhoeddwn y newyddion da gydag arddeliad a brwdfrydedd diffuant.

'Pwy a anfonaf?'

'Anfon fi.'

Ydan ni yn barod i ymateb i'r her tybed?

Cofiw'n am gomisiwn Iesu, cyn ei fyned at y Tad: 'Ewch pregethwch yr Efengyl, gwnewch ddisgyblion ymhob gwlad.' Deil yr Iesu eto i alw yn ein dyddiau ninnau'n awr; ef sy'n codi ac yn anfon weithwyr i'w gynhaeaf mawr.'

Parch Brian Huw Jones
Llywydd y Gymanfa Gyffredinol

Gwerthfawrogi yn Abergele

Ym Mynydd Seion, Abergele fore Sul, 3ydd o Ragfyr, cyflwynwyd blodau i Gwenda Owen mewn gwerthfawrogiad o'i gwaith yn trefnu'r Baned a Sgwrs misol. Yn y cyfnod hwnnw o wyth mlynedd cyflwynwyd miloedd o bunnoedd i achosion da. Yn y llun gwelir Ritchie Owen (arbenigwr y peiriant golchi llestri) a'i briod Gwenda, a'r Gweinidog y Parch Ifor ap Gwilym a gyflwynodd y blodau.

